GOF CWRT

Dail masarnen dros y meysydd
Cri yr hydd o odre'r pant
Llef yr hebog yn yr hwyrnos
Hol traed dwrgwn ar lannau'r nant.

Hydref ddaeth i Ddyffryn Cothi
Cysgodion hir dan olau'r lloer
Lludw lle fu tan yr efail
Morthwyl segur ar yr einion oer.

Does dim gof ger Nant Gwasanaeth
Does dim galw am ei waith
Ffordd o fyw fel ffordd y porthmyn
Wedi cyrraedd pen y daith.

Sŵn y carnau wedi cilio
Sŵn llef eidion aeth i'r cof
Lonydd distaw sydd yn arwain
At hen efail oer y gof

Mab gof Cwrt yn gweithio'r rheilffordd
Sy'n gadael creithiau dros y ddol
Cledrau haearn sy'n ei gludo
I'r dyfodol - ni ddaw'n ôl.

© Geraint Griffiths 2006